
Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr yng Nghymru

# 2017

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**


Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Canllaw ac allwedd defnyddwyr

- Canllaw ‘clicio a mynd’ yw hwn sy’n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am destunau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol

- Mae’r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o’r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati

- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen gyswllt at y wefan honno. Gallwch glicio ar y botwm ⌂ ar unrhyw adeg i fynd yn ôl at y dudalen gynnwys



# Cynnwys


1. Cyflwyniad 04

2. Crynodeb a negeseuon allweddol 04

3. Pwyntiau allweddol 05

4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud? 05

5. Data a dadansoddi 07

    5.1 Nifer y rheolwyr cofrestredig 07

    5.2 Rheolwyr yn ymuno â'r gofrestr ac yn ei gadael 07

    5.3 Gwybodaeth am gyflogaeth 09

    5.4 Cymwysterau 18

    5.5 Oedran a rhyw'r rheolwyr 23

    5.6 Amrywiaeth a gallu ieithyddol Cymraeg y rheolwyr 25

# 1. Cyflwyniad

Dyma ein pedwerydd adroddiad ar reolwyr gofal cartref sy'n gweithio yng Nghymru. Bwriad ein adroddiadau yw gwneud sylwadau ar y data, a chraffu arno, a sicrhau bod crynodeb ohono ar gael i'r cyhoedd, er mwyn cael dealltwriaeth well o'r gweithlu.

Mae'r wybodaeth yn dod o Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr) sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheolwyr yn rhoi'r wybodaeth hon i ni wrth wneud cais i gofrestru, a phan fyddan nhw'n dweud wrthym am unrhyw newidiadau.

Ers 28 Chwefror 2014, mae'n rhaid i reolwyr gwasanaethau gofal cartref sy'n gweithio yng Nghymru fod yn gymwys ac wedi cofrestru gyda ni. Cafodd hyn ei gyflwyno gan reoliadau Llywodraeth Cymru[1].

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r 633 o reolwyr ar y Gofrestr ar 1 Chwefror 2017, ac unrhyw newidiadau i'w cyflogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw rheolwyr sy'n ymgeisio i fod ar y Gofrestr ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys.

Nid oes angen i weithwyr gofal cartref gofrestru, felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

# 2. Crynodeb

Mae nifer y rheolwyr ar y Gofrestr wedi cynyddu am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Er mai cynnydd o 2.5 y cant yn unig yw hwn, mae'n awgrymu bod y Gofrestr yn sefydlog. Hefyd, mae trosiant wedi gostwng o 15.1 y cant i 14.1 y cant.

Mae canran y rheolwyr sydd wedi bod yn eu swyddi am dros 5 mlynedd wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2014, o 55.3 y cant i 47.7 y cant, ac mae'r ganran ar gyfer aros yn y swydd am 5 mlynedd neu lai wedi cynyddu o 44.7 y cant i 52.3 y cant yn yr un cyfnod.

Un peth sy'n peri pryder yw bod bron i hanner y rheolwyr sy'n ymuno â'r gofrestr wedi bod yn y swydd am dros flwyddyn heb gofrestru. Gall hyn awgrymu nad oedd y rheolwr neu'r cyflogwr yn ymwybodol o'r gofynion cofrestru, a bod angen i ni gyfathrebu'r neges hon i'r cyflogwyr perthnasol. Hefyd, gall fod oherwydd nad oedd gan y rheolwr y cymhwyster gofynnol, a'r unig ffordd o gyflawni hyn yw wrth wneud swydd rheolwr.

Mae gan bob rheolwr gofal cartref gymhwyster perthnasol, ac, erbyn hyn, mae gan bron i un rheolwr ym mhob tri Ddiploma Lefel 5 mewn Arwain ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion), sef y cymhwyster cyfredol sy'n galluogi rheolwyr i gofrestru. Dyma'r tro cyntaf i'r cymhwyster hwn gael ei ddal gan y gyfran uchaf o reolwyr ar y Gofrestr.

1. *Offerynnau Statudol Cymru 2013 Rhif 225 (W.30) Gofal Cymdeithasol Cymru, Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) (Diwygio).*

# 3. Pwyntiau allweddol a thueddiadau

- Mae 633 o reolwyr ar y Gofrestr, sydd wedi cynyddu o 618 y llynedd.
- Ymunodd 102 o reolwyr â'r Gofrestr. Mae hyn yn cynnwys 49 oedd yn hwyr yn cofrestru, gan eu bod wedi cymhwyso eisoes, ac wedi bod yn gweithio yn eu swyddi presennol dros flwyddyn yn ôl.
- Gadawodd 87 o reolwyr y Gofrestr. Mae hyn yn drosiant o 14.1 y cant.
- 430 o wasanaethau cofrestredig, oedd yn cynnwys 25 asiantaeth byw â chymorth a 405 asiantaeth gofal cartref.
- Mae rhai gwasanaethau sydd heb reolwr yn gofrestredig â Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys 13 lle mae swydd y rheolwr yn wag ar hyn o bryd.
- Roedd 106 o reolwyr yn hunangyflogedig, ac yn berchnogion-reolwyr, yn ddarparwyr neu'n gyfarwyddwyr gofal.
- Roedd 59.7 y cant o reolwyr yn gweithio yn y sector preifat, sy'n is na'r llynedd. Mae'r ganran a gyflogir yn y trydydd sector wedi parhau i gynyddu i 25.9 y cant (23 y cant yn 2016).
- Roedd 28.5 y cant wedi bod yn gweithio yn eu swyddi presennol am lai na dwy flynedd, ac roedd 27.9 y cant wedi gweithio yn eu swyddi presennol am dros ddeng mlynedd.
- Oedran cyfartalog y rheolwyr oedd 49.
- Mae'r gymhareb rheolwyr benywaidd i wrywaidd wedi aros yn sefydlog ar tua 4:1.
- Nododd 34.3 y cant eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, neu fod rhywfaint o allu ieithyddol Cymraeg ganddynt, sy'n gynnydd o 1.1 y cant. Roedd 65.7 y cant o reolwyr yn meddu ar ddim sgiliau Cymraeg.

# 4. Beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud?

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid er mwyn datblygu cynllun pum mlynedd ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar lawer o dystiolaeth, gan gynnwys adolygiadau, adroddiadau ac ymchwil, sy'n rhoi meysydd gwaith eglur i ni eu hystyried er mwyn ein helpu i wella gofal cartref yng Nghymru.

Y peth cyntaf sydd angen i ni ei wneud yw gweithio gyda'n partneriaid er mwyn datblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu'r hyn sydd angen ei wneud. Byddwn yn cydweithio â'r byrddau partneriaeth rhanbarthol, a sefydlwyd trwy *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, er mwyn gwneud hyn.

## Beth arall fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud?

Mae recriwtio a chadw staff yn anodd mewn sawl maes gofal cymdeithasol, ac mae'n bryder mawr i reolwyr gofal cartref. Byddwn yn datblygu Fframwaith Gyrfaoedd, Recriwtio a Chadw Staff ar gyfer gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys gofal cartref. Bydd y fframwaith yn gwneud y canlynol:

- canolbwyntio ar recriwtio, ymsefydlu a datblygu parhaus sy'n seiliedig ar werthoedd;
- cynorthwyo cyflogwyr i ddarganfod a chadw gweithwyr sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i gyflwyno gofal o ansawdd uchel; ac
- annog datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol eisoes.

Byddwn yn ymgynghori ar ddrafft o fframwaith yn ystod 2017.

Gall y gweithlu gofal cartref gofrestru â ni o 2018 ymlaen, a bydd angen iddynt wneud hynny erbyn Ebrill 2020. Rydym yn cynllunio ystod o waith er mwyn cynorthwyo gweithwyr cymorth a rheolwyr i wneud cofrestru'n brofiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys:

- canfod beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu â'r gweithlu gofal cartref;
- darparu gwybodaeth am gofrestru i reolwyr a gweithwyr;
- deall y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr gofal cartref; ac
- datblygu adnoddau dysgu er mwyn helpu pobl i ddeall y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (y Côd).

Byddwn yn ymgynghori ar y gofynion cofrestru yn ystod 2017.

Nod y rhaglen *Camu ymlaen i reoli* yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar weithwyr gofal cymdeithasol er mwyn symud i rolau rheoli. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, rydym yn bwriadu ymestyn y rhaglen dros Gymru gyfan, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru.

Mae *Camau cyntaf mewn rheoli* yn adnodd sy'n rhoi cymorth i'r rheiny sy'n newydd i'r byd rheoli. Mae'n cyd-fynd â'r Côd ac arweiniad ymarfer i reolwyr. Cafodd ei adolygu, a bydd yn cael ei ddiweddaru cyn hir.

Byddwn yn parhau i gynnig fforymau i reolwyr cofrestredig ledled Cymru. Gwahoddir rheolwyr i'n helpu i drefnu'r wyth o ddigwyddiadau rhanbarthol, lle gall reolwyr ddiweddaru eu gwybodaeth, a rhannu gwybodaeth a syniadau.

# 5. Data a dadansoddi

Rydym yn rhannu ac yn derbyn data â/gan reoleiddiwr y gwasanaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), ac mae hyn yn ein helpu i gael rhagor o wybodaeth am y sector a'r symud rhwng swyddi. Maent yn gweithredu dros reolwyr nad ydynt wedi cofrestru gyda ni yn ôl yr angen.

- Cofrestrwyd 430 o wasanaethau gofal cartref ag AGGCC, gan gynnwys 25 o asiantaethau byw â chymorth a 405 o asiantaethau gofal cartref.

## 5.1 Nifer y rheolwyr cofrestredig

- Mae 633 o reolwyr yn gofrestredig.
- Ar hyn o bryd, mae 605 wedi'u cyflogi ym maes gofal cartref.
- Roedd 16 yn rheoli mwy nag un gwasanaeth gofal cartref.
- Roedd 28 o reolwyr nad oeddent yn gweithio ym maes gofal cartref ar hyn o bryd, neu nid oedd eu swydd yn hysbys.

## 5.2 Rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr ac yn ei gadael

**Tabl 1: Rheolwyr yn ymuno â'r Gofrestr ac yn ei gadael**

| Trosiant | Nifer y rheolwyr |
|---|---|
| Nifer y rheolwyr yn adroddiad 2017 | 633 |
| Nifer y rheolwyr yn gadael yn adroddiad 2017 | 87 |
| Nifer y rheolwyr yn ymuno yn adroddiad 2017 | 102 |

- Yn y flwyddyn ddiwethaf, newidiodd tri rheolwr cartref gofal eu rôl ar y gofrestr i reolwr gofal cartref, a newidiodd naw rheolwr gofal cartref i fod yn rheolwyr mewn cartrefi gofal i oedolion. O'r 618 o reolwyr gofal cartref, roedd 24 ohonynt yn gweithio mewn lleoliad cartref gofal i oedolion yn ogystal, ac roeddent yn gofrestredig dan y ddwy rôl.

- Ar y cyfan, roedd cynnydd o 15 o reolwyr ar y Gofrestr.

Tabl 2: Rhesymau'r rheolwyr gofal cartref dros gofrestru

| Rheswm dros gofrestru eleni | Nifer y rheolwyr 2016-17 | Canran o reolwyr 2016-17 |
|---|---|---|
| Hwyr yn cofrestru. Wedi cofrestru am y tro cyntaf fel rheolwr gofal cartref yn y flwyddyn ddiwethaf, ond wedi dechrau'r swydd dros flwyddyn yn ôl. | 49 | 48.0% |
| Wedi cymhwyso a chofrestru yn y flwyddyn ddiwethaf | 25 | 24.5% |
| Wedi cofrestru am y tro cyntaf fel rheolwr gofal cartref. Wedi dechrau'r swydd yn y flwyddyn ddiwethaf. | 22 | 21.6% |
| Wedi cofrestru yn flaenorol fel rheolwr cartref gofal i oedolion | 3 | 2.9% |
| Wedi cofrestru yn flaenorol fel gweithiwr gofal cartref. | 2 | 2.0% |
| Wedi cofrestru eisoes. Cofrestriad ychwanegol fel rheolwr gofal cartref | 1 | <1% |
| Cyfanswm | 102 | 100% |

- Cofrestrodd 102 o bobl fel rheolwyr gofal cartref, ac roedd hyn yn cynnwys 49 oedd yn hwyr yn cofrestru.
- Cofrestrodd bron i hanner y rheolwyr newydd (48 y cant) yn hwyr. Mae'r cyfanswm hwn wedi ei rannu dros nifer fawr o gyflogwyr, felly nid oes patrwm.

**Tabl 3: Rhesymau'r rheolwyr gofal cartref dros adael y Gofrestr**

| Rheswm dros adael | Nifer y rheolwyr |
|---|---|
| Heb gynnal cofrestriad | 51 |
| Nid yw cofrestru'n un o ofynion y swydd bresennol | 12 |
| Wedi newid cofrestriad i fod yn rheolwr cartref gofal i oedolion | 9 |
| Ymddeol | 5 |
| Yn ddi-waith ar hyn o bryd | 2 |
| Ddim yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol mwyach | 2 |
| Arall | 2 |
| Wedi newid cofrestriad i fod yn weithiwr gofal plant preswyl | 1 |
| Wedi marw | 1 |
| Wedi ei ddileu yn sgil gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer | 1 |
| Wedi ei wahardd | 1 |
| Cyfanswm | 87 |

- Y trosiant ar gyfer rheolwyr gofal cartref cofrestredig yn y flwyddyn ddiwethaf oedd 14.1 y cant.
- Roedd y 87 a adawodd y Gofrestr fel rheolwr gofal cartref yn cynnwys naw a arhosodd yn gofrestredig ond a symudodd i rôl rheolwr cartref gofal i oedolion.

## 5.3 Gwybodaeth am gyflogaeth

**Tabl 4: Cyflogaeth y rheolwyr**

| Cyflogaeth y rheolwyr | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyflogedig ym maes gofal cymdeithasol | 491 | 77.6% |
| Hunangyflogedig ym maes gofal cymdeithasol | 106 | 16.7% |
| Ddim yn gweithio ym maes gofal cartref ar hyn o bryd | 28 | 4.4% |
| Cyflogedig ym maes gofal cymdeithasol gan asiantaeth | 8 | 1.3% |
| Cyfanswm | 633 | 100% |

- Roedd 28 o reolwyr nad oeddent yn gweithio ym maes gofal cartref ar hyn o bryd, neu nid oedd eu swydd yn hysbys.
- Roedd gan 16 ohonynt ail swydd mewn gwasanaeth gofal cartref. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys yr 16 o ail swyddi, sy'n golygu 621 o swyddi i gyd.

Tabl 5: Math o waith rhwng 2014 a 2017

| Math o waith | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr |
| Cyflogedig ym maes gofal cymdeithasol | 431 | 83.5% | 486 | 81.1% | 486 | 78.6% | 491 | 77.6% |
| Hunangyflogedig ym maes gofal cymdeithasol | 72 | 14.0% | 103 | 17.2% | 107 | 17.3% | 106 | 16.7% |
| Ddim yn gweithio ym maes gofal cartref ar hyn o bryd | 7 | 1.4% | 4 | 0.7% | 22 | 3.6% | 28 | 4.4% |
| Cyflogedig ym maes gofal cymdeithasol gan asiantaeth | 6 | 1.2% | 6 | 1.0% | 3 | 0.5% | 8 | 1.3% |
| Cyfanswm | 516 | 100% | 599 | 100% | 618 | 100% | 633 | 100% |

Tabl 6: Cyflogaeth y rheolwyr yn ôl sector

| Sector | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr |
|---|---|---|
| Preifat | 371 | 59.7% |
| Trydydd sector | 161 | 25.9% |
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol | 86 | 13.8% |
| Iechyd | 2 | 0.3% |
| Addysg uwch/bellach | 1 | 0.2% |
| Cyfanswm | 621 | 100% |

- Bob blwyddyn ers 2014, mae canran y rheolwyr a gyflogir yn y trydydd sector wedi cynyddu, ac mae'r ganran a gyflogir yn y sector awdurdodau lleol wedi gostwng.
- Roedd 59.7 y cant o reolwyr yn gweithio yn y sector preifat, sydd wedi lleihau 2.6 y cant ers y llynedd.
- Roedd 25.9 y cant yn gweithio yn y trydydd sector, sydd wedi cynyddu 2.9 y cant.

Tabl 7: Canran y rheolwyr a gyflogir ym mhob sector rhwng 2014 a 2017

| Sector | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Preifat | 60.3% | 62.0% | 62.3% | 59.7% |
| Trydydd sector | 19.1% | 21.4% | 23.0% | 25.9% |
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol | 19.8% | 16.3% | 14.2% | 13.8% |
| Iechyd | 0.0% | 0.0% | 0.3% | 0.3% |
| Addysg uwch/bellach | 0.4% | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Awdurdod lleol - arall | 0.4% | 0.2% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% |

Tabl 8: Teitlau swyddi rheolwyr rhwng 2015 a 2017

| Teitl y swydd | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Rheolwr/rheolwr gofal/rheolwr cofrestredig | 308 | 327 | 355 |
| Cyfarwyddwr/rheolwr gyfarwyddwr/pennaeth neu gyfarwyddwr gofal neu weithrediadau/prif swyddog | 34 | 42 | 50 |
| Rheolwr ardal, rhanbarthol neu Gymru | 45 | 42 | 46 |
| Rheolwr, cydlynydd neu arweinydd tîm | 31 | 29 | 27 |
| Rheolwr a pherchennog | 22 | 32 | 26 |
| Rheolwr cangen | 24 | 27 | 22 |
| Rheolwr cynorthwyol neu ddirprwy reolwr | 20 | 17 | 21 |
| Rheolwr arall | 13 | 21 | 17 |
| Rheolwr neu gydlynydd gofal a chymorth | 31 | 10 | 10 |
| Perchennog/darparwr/unigolyn cyfrifol | 14 | 12 | 9 |
| Cydlynydd, rheolwr neu gyfarwyddwr cymunedol | 10 | 8 | 7 |
| Rheolwr dros dro | 4 | 6 | 6 |
| Rheolwr ail-alluogi | 9 | 8 | 6 |
| Rheolwr ac unigolyn cyfrifol | 3 | 5 | 5 |
| Arweinydd ymarfer | 4 | 4 | 4 |
| Rheolwr a chyfarwyddwr | 15 | 4 | 3 |
| Rheolwr, arweinydd neu gydlynydd prosiect | 4 | 4 | 3 |
| Rheolwr contractau | 8 | 5 | 2 |
| Gweithiwr gofal | 2 | 0 | 1 |
| Nyrs | 1 | 1 | 1 |
| Metron | 1 | 1 | 0 |
| Cyfanswm | 603 | 605 | 621 |

Dyma'r unig dabl yn y adroddiad nad yw'n cynnwys data ar gyfer 2014. Y rheswm am hyn yw bod y wybodaeth yn cael ei chategoreiddio mewn ffordd wahanol bryd hynny.

Mae'r rhan fwyaf o deitlau swyddi rheolwyr yn dangos eu bod yn gweithio fel rheolwr gwasanaeth. Mae'r amrywiaeth o deitlau swyddi gwahanol yn y sector yn golygu efallai bod pobl eraill yn rheoli gwasanaeth. Hefyd, gall hyn adlewyrchu'r mathau gwahanol o wasanaeth sy'n cael eu cofrestru fel gwasanaethau gofal cartref. Mae asiantaethau'n cynnig ystod o wasanaethau, o gymorth arbenigol ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu i wasanaethau mwy generig.

"Mae rhai yn darparu gwasanaethau tai â chymorth penodol, ac mae eraill yn darparu gofal mewn amrywiaeth o wasanaethau, mewn trefniadau prynu 'bloc' neu 'sbot'. Mae rhai asiantaethau yn asiantaethau nyrsio hefyd" (*AGGCC, 2016 – Uwchben a Thu Hwnt*[2])


**Tabl 9: Gyda phwy mae rheolwyr gofal cartref yn gweithio?**

| Categori unigol | Nifer y rolau rheolwr |
|---|---|
| Anableddau dysgu | 77 |
| Iechyd meddwl | 17 |
| Plant a theuluoedd | 5 |
| Anableddau corfforol | 3 |
| Arall | 15 |
| Cyfanswm | 117 |

| Cyfuniadau o gategorïau | Nifer y rolau rheolwr |
|---|---|
| Pobl hŷn (gan gynnwys anableddau dysgu, iechyd meddwl, anableddau corfforol) | 195 |
| Oedolion a phobl hŷn (gan gynnwys anableddau dysgu, iechyd meddwl, anableddau corfforol) | 165 |
| Oedolion (gan gynnwys anableddau dysgu, iechyd meddwl, anableddau corfforol) | 85 |
| Plant, oedolion a phobl hŷn | 45 |
| Plant (gan gynnwys anableddau dysgu, anableddau corfforol, iechyd meddwl) | 14 |
| Cyfanswm | 504 |

*2. Uwchben a thu hwnt: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru 2015-16. AGGCC, 2016*

Ffigwr 1




- Mae rheolwyr yn dweud wrthym ba grwpiau o bobl maen nhw'n gweithio â nhw yn eu swyddi, ac mae'r rhan fwyaf yn amlygu mwy nag un grŵp. Pobl hŷn oedd y grŵp mwyaf, a dywedodd llai na 11 y cant eu bod yn gweithio gyda phlant.
- Roedd 37 o reolwyr yn gweithio i wasanaeth tai â chymorth gydag ystod o oedolion.

Tabl 10: Nifer y gwasanaethau a rheolwyr cofrestredig sy'n gweithio ym mhob awdurdod unedol yng Nghymru (gan gynnwys 16 o ail swyddi sydd gan reolwyr)

| Awdurdod Unedol | Gwasanae-thau sydd wedi cofrestru ag AGGCC (Asiantae-th) | Gwasanae-thau sydd wedi cofrestru ag AGGCC (tai â chymorth) | Cyfanswm y gwasan-aethau sydd wedi cofrestru ag AGGCC | Nifer rolau rheolwyr sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeitha-sol Cymru* | Gwahania-eth yn nifer y rolau ers 2016 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 10 | 4 | 14 | 17 | +2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 18 | 0 | 18 | 36 | +8 |
| Caerffili | 17 | 3 | 20 | 32 | +2 |
| Caerdydd | 52 | 1 | 53 | 70 | +9 |
| Sir Gaerfyrddin | 20 | 2 | 22 | 33 | +3 |
| Ceredigion | 14 | 0 | 14 | 17 | +2 |
| Conwy | 21 | 0 | 21 | 35 | 0 |
| Sir Ddinbych | 23 | 0 | 23 | 29 | -2 |
| Sir y Fflint | 22 | 0 | 22 | 32 | -3 |
| Gwynedd | 16 | 0 | 16 | 31 | 0 |
| Ynys Môn | 3 | 1 | 4 | 7 | 0 |
| Merthyr Tudful | 4 | 0 | 4 | 4 | +1 |
| Sir Fynwy | 14 | 0 | 14 | 19 | -2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 14 | 1 | 15 | 12 | -3 |
| Casnewydd | 14 | 1 | 15 | 23 | 0 |
| Sir Benfro | 22 | 0 | 22 | 29 | -1 |
| Powys | 12 | 3 | 15 | 27 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 16 | 4 | 20 | 32 | 0 |
| Abertawe | 33 | 4 | 37 | 58 | -2 |
| Torfaen | 20 | 1 | 21 | 22 | -5 |
| Bro Morgannwg | 17 | 0 | 17 | 20 | -2 |
| Wrecsam | 22 | 0 | 22 | 26 | +4 |
| Y tu allan i Gymru | 1 | 0 | 1 | 10 | +5 |
| Cyfanswm | 405 | 25 | 430 | 621 | +16 |

**Roedd 16 yn rheoli mwy nag un gwasanaeth gofal cartref, ac roedd 28 o reolwyr nad oeddent yn gweithio ym maes gofal cartref ar hyn o bryd, neu nid oedd eu swydd yn hysbys.*


- Roedd naw yn fwy o reolwyr yn gweithio yng Nghaerdydd o gymharu â'r llynedd, ac wyth yn fwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd pump yn llai yn gweithio fel rheolwyr yn Nhorfaen.
- Castell-nedd Port Talbot yw'r unig awdurdod unedol lle mae nifer y rolau rheolwyr yn llai na nifer y gwasanaethau.
- Mae nifer y rheolwyr ym mhob awdurdod unedol yn cyd-fynd yn fras â phoblogaeth pob awdurdod. Er enghraifft, mae 11 y cant o boblogaeth Cymru yn byw yng Nghaerdydd, ac mae 11 y cant o'r rheolwyr cofrestredig yn cael eu cyflogi yng Nghaerdydd[3].
- Mae rhai gwasanaethau heb reolwr sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys 13 lle mae swydd y rheolwr yn wag ar hyn o bryd.

**Tabl 11: Nifer o flynyddoedd y mae'r rheolwyr wedi bod yn eu swyddi presennol, rhwng 2014 a 2017**

| Blynyddoedd yn y swydd bresennol | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr |
| Dros 10 mlynedd | 139 | 27.0% | 168 | 27.9% | 169 | 27.9% | 173 | 27.9% |
| 9 i 10 mlynedd | 17 | 3.3% | 28 | 4.6% | 32 | 5.3% | 21 | 3.4% |
| 8 i 9 mlynedd | 33 | 6.4% | 41 | 6.8% | 21 | 3.5% | 19 | 3.1% |
| 7 i 8 mlynedd | 34 | 6.6% | 29 | 4.8% | 24 | 4.0% | 26 | 4.2% |
| 6 i 7 mlynedd | 28 | 5.4% | 28 | 4.6% | 30 | 5.0% | 33 | 5.3% |
| 5 i 6 mlynedd | 33 | 6.4% | 32 | 5.3% | 36 | 6.0% | 24 | 3.9% |
| 4 i 5 mlynedd | 34 | 6.6% | 41 | 6.8% | 29 | 4.8% | 37 | 6.0% |
| 3 i 4 mlynedd | 42 | 8.2% | 44 | 7.3% | 43 | 7.1% | 48 | 7.7% |
| 2 i 3 mlynedd | 52 | 10.1% | 51 | 8.5% | 60 | 9.9% | 63 | 10.1% |
| 1 i 2 flynedd | 50 | 9.7% | 66 | 10.9% | 84 | 13.9% | 88 | 14.2% |
| 0 i 1 flynedd | 52 | 10.1% | 75 | 12.4% | 77 | 12.7% | 89 | 14.3% |
| Cyfanswm | 514 | 100% | 603 | 100% | 605 | 100% | 621 | 100% |

*3. Data poblogaeth 30 Gor 2015, amcangyfrif poblogaeth canol y flwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Ffigwr 2




| | Dros 10 mlynedd | 9 i 10 mlynedd | 8 i 9 mlynedd | 7 i 8 mlynedd | 6 i 7 mlynedd | 5 i 6 mlynedd | 4 i 5 mlynedd | 3 i 4 mlynedd | 2 i 3 mlynedd | 1 i 2 flynedd | 0 i 1 flynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 139 | 17 | 33 | 34 | 28 | 33 | 34 | 42 | 52 | 50 | 52 |
| 2015 | 168 | 28 | 41 | 29 | 28 | 32 | 41 | 44 | 51 | 66 | 75 |
| 2016 | 169 | 32 | 21 | 24 | 30 | 36 | 29 | 43 | 60 | 84 | 77 |
| 2017 | 173 | 21 | 19 | 26 | 33 | 24 | 37 | 48 | 63 | 88 | 89 |


- Eleni, roedd 27.9 y cant o reolwyr wedi bod yn eu swyddi ers dros ddeng mlynedd.
- Bob blwyddyn, mae canran y rheolwyr sydd wedi bod yn eu swyddi presennol am ddwy flynedd neu lai wedi cynyddu, ac, ar hyn o bryd, mae ar 28.5 y cant.
- Yr awdurdodau unedol sydd â'r ganran uchaf o reolwyr sydd wedi bod yn eu swyddi presennol ers dros 10 mlynedd yw Torfaen (45.5 y cant), Sir Ddinbych (44.8 y cant) a Phen-y-bont ar Ogwr (44.4 y cant).

- Yr awdurdodau unedol sydd â'r ganran uchaf o reolwyr sydd wedi bod yn eu swyddi presennol am ddwy flynedd neu lai oedd Conwy (42.9 y cant), Abertawe (39.7 y cant) a Phowys (37 y cant).

- O'r rheolwyr sydd o dan 40 oed, roedd 37.4 y cant wedi bod yn eu swyddi presennol ers dros bum mlynedd, o gymharu â 50.6 y cant o'r rhai dros 40 oed. Roedd 23 y cant arall o'r rhai dan 40 oed wedi dechrau yn eu swyddi presennol yn y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â 11.8 y cant o'r rhai dros 40 oed.

## 5.4 Cymwysterau

Ffigwr 3: Cymwysterau'r rheolwyr




- LHSCS QCF Lefel 5 (Rheoli oedolion)
- Dyfarniad Rheolwyr Cofrestredig NVQ
- NVQ 4 - Rheoli
- NVQ 4 – Arwain a rheoli mewn owasanaeth gofal
- NVQ 4 –Iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)
- NVQ 4 mewn Gofal
- Cymhwyster cyfwerth arall
- Cymhwyster gwaith cymdeithasol (heb gymhwsyter rheoli ychwanegol)
- NVQ 4 mewn Gofal ac NVQ 4 mewn Rheoli
- NVQ 4 mewn Iechyd a gofal cymdeithasol ac NVQ 4 mewn Rheoli
- Diploma mewn Rheoli gofal cartref

- Mae gan yr holl reolwyr gofal cartref gymhwyster perthnasol, a, bellach, mae gan bron i un rheolwr ym mhob tri Ddiploma Lefel 5 mewn Arwain gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Rheoli oedolion), sef y cymhwyster cyfredol sy'n galluogi rheolwyr i gofrestru. Mae gan 28.8 y cant o reolwyr y cymhwyster hwn.

- Dyma'r tro cyntaf i'r cymhwyster hwn gael ei ddal gan y gyfran fwyaf o reolwyr gofal cartref ar y Gofrestr. Roedd gan reolwyr eraill gymwysterau a dderbyniwyd yn flaenorol.

Tabl 12: Cymwysterau sydd gan reolwyr gofal cartref rhwng 2014 a 2017


| Cymhwyster | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr | Nifer y rheolwyr | Canran y rheolwyr |
| QCF LHSCS Lefel 5 (Rheoli oedolion) | 60 | 11.6% | 96 | 16.0% | 141 | 22.8% | 182 | 28.8% |
| Dyfarniad rheolwyr cofrestredig NVQ | 144 | 27.9% | 159 | 26.5% | 150 | 24.3% | 135 | 21.3% |
| NVQ 4 mewn Rheoli | 99 | 19.2% | 108 | 18.0% | 101 | 16.3% | 98 | 15.5% |
| NVQ 4 mewn Arwain a rheoli gwasanaet-hau gofal | 83 | 16.1% | 96 | 16.0% | 91 | 14.7% | 87 | 13.7% |
| NVQ 4 mewn Iechyd a gofal cymdeitha-sol (Oedolion) | 67 | 13.0% | 69 | 11.5% | 69 | 11.2% | 66 | 10.4% |
| NVQ 4 mewn Gofal | 26 | 5.0% | 24 | 4.0% | 28 | 4.5% | 25 | 3.9% |
| Cymhwyster cyfwerth arall | 4 | 0.8% | 16 | 2.7% | 12 | 1.9% | 15 | 2.4% |
| Cymhwyster gwaith cymdeitha-sol heb gymhwyster rheoli ychwanegol | 19 | 3.7% | 17 | 2.8% | 15 | 2.4% | 14 | 2.2% |
| NVQ 4 mewn Gofal a NVQ 4 mewn Rheoli | 7 | 1.4% | 8 | 1.3% | 6 | 1.0% | 7 | 1.1% |
| NVQ 4 mewn Iechyd a gofal cymdeithasol a NVQ 4 mewn Rheoli | 5 | 1.0% | 5 | 0.8% | 4 | 0.6% | 3 | 0.5% |
| Diploma mewn Rheoli gofal cartref | 2 | 0.4% | 1 | 0.2% | 1 | 0.2% | 1 | 0.2% |
| Cyfanswm | 516 | 100% | 599 | 100% | 618 | 100% | 633 | 100% |

Tabl 13: Nifer y blynyddoedd ers i reolwyr gael eu cymhwyster rheoli gofal cymdeithasol cyntaf

| Blynyddoedd ers cymhwyso | Nifer y rheolwyr | Canran |
|---|---|---|
| Dros 10 mlynedd | 164 | 25.9% |
| 9 i 10 mlynedd | 67 | 10.6% |
| 8 i 9 mlynedd | 49 | 7.7% |
| 7 i 8 mlynedd | 38 | 6.0% |
| 6 i 7 mlynedd | 60 | 9.5% |
| 5 i 6 mlynedd | 41 | 6.5% |
| 4 i 5 mlynedd | 36 | 5.7% |
| 3 i 4 mlynedd | 51 | 8.1% |
| 2 i 3 mlynedd | 51 | 8.1% |
| 1 i 2 flynedd | 51 | 8.1% |
| 0 i 1 flynedd | 25 | 3.9% |
| Cyfanswm | 633 | 100% |


- Roedd 12 y cant o reolwyr wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd ddiwethaf, 66.2 y cant wedi cymhwyso am y tro cyntaf dros bum mlynedd yn ôl a chymhwysodd 25.9 y cant dros 10 mlynedd yn ôl.

Ffigwr 4: Nifer y blynyddoedd ers i reolwyr gymhwyso am y tro cyntaf



## 5.5 Oedran a rhyw'r rheolwyr

Ffigwr 5: Oedran a rhyw




| | Dan 25 | 25 i 30 | 31 i 35 | 36 i 40 | 41 i 45 | 46 i 50 | 51 i 55 | 56 i 60 | 61 i 65 | Dros 65 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 1 | 14 | 33 | 66 | 55 | 93 | 105 | 90 | 43 | 11 |
| Dynion | 1 | 1 | 15 | 13 | 17 | 28 | 20 | 17 | 8 | 2 |

- Oedran cyfartalog rheolwyr gofal cartref ar y gofrestr oedd 49, sef yr un fath â 2015 a 2016.
- Mae dros hanner y rheolwyr dros 40 oed. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod pobl yn dod at y math hwn o waith yn hwyrach yn eu bywydau, ond mae hyn hefyd yn cyflwyno'r potensial ar gyfer gweithlu sy'n lleihau os na ellir recriwtio digon o weithwyr newydd (adolygiad AGGCC[4] a Llywodraeth Cymru[5]).

4. *Uwchben a thu hwnt: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru 2015-16. AGGCC, 2016.*

5. *Y ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref. Llywodraeth Cymru, 2016.*

Tabl 14: Oedran a rhyw

| Grŵp oedran | Menywod | Dynion | Nifer y rheolwyr | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Dan 25 | 1 | 1 | 2 | 0.3% |
| 25 i 30 | 14 | 1 | 15 | 2.4% |
| 31 i 35 | 33 | 15 | 48 | 7.6% |
| 36 i 40 | 66 | 13 | 79 | 12.5% |
| 41 i 45 | 55 | 17 | 72 | 11.4% |
| 46 i 50 | 93 | 28 | 121 | 19.1% |
| 51 i 55 | 105 | 20 | 125 | 19.7% |
| 56 i 60 | 90 | 17 | 107 | 16.9% |
| 61 i 65 | 43 | 8 | 51 | 8.1% |
| Dros 65 | 11 | 2 | 13 | 2.1% |
| Cyfanswm | 511 | 122 | 633 | 100% |

- Roedd mwyafrif y rheolwyr rhwng 36 a 60 oed (79.6 y cant).
- Roedd 10.3 y cant yn iau na 35 oed, a 10.1 y cant dros 60 oed.

Tabl 15: Oedran a rhyw

| | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp oedran | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion | Menywod | Dynion |
| Dan 25 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| 25 i 30 | 8 | 3 | 12 | 7 | 14 | 3 | 14 | 1 |
| 31 i 35 | 36 | 5 | 44 | 6 | 35 | 15 | 33 | 15 |
| 36 i 40 | 45 | 10 | 49 | 14 | 61 | 14 | 66 | 13 |
| 41 i 45 | 56 | 21 | 61 | 15 | 55 | 13 | 55 | 17 |
| 46 i 50 | 81 | 20 | 91 | 27 | 98 | 25 | 93 | 28 |
| 51 i 55 | 82 | 16 | 84 | 22 | 94 | 19 | 105 | 20 |
| 56 i 60 | 71 | 19 | 89 | 18 | 87 | 22 | 90 | 17 |
| 61 i 65 | 36 | 1 | 42 | 5 | 40 | 7 | 43 | 8 |
| Dros 65 | 5 | 1 | 11 | 1 | 14 | 1 | 11 | 2 |
| **Cyfanswm** | **420** | **96** | **484** | **115** | **499** | **119** | **511** | **122** |
| Cyfanswm | 516 | | 599 | | 618 | | 633 | |

- Mae'r gymhareb menywod i ddynion wedi aros yn sefydlog ar tua 4:1.

## 5.6 Amrywiaeth a sgiliau Cymraeg y rheolwyr

Tabl 16: Amrywiaeth ethnig

| Ethnigrwydd | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn (gwyn prydeinig, gwyn cymreig, Gwyn gwyddelig, cefndir gwyn arall) | 98.1% | 98.2% | 98.3% | 98.5% |
| Indiaidd | 0.0% | 0.0% | 0.4% | 0.4% |
| Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd | 0.9% | 0.8% | 0.4% | 0.4% |
| Arall | 0.2% | 0.4% | 0.4% | 0.2% |
| Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig Pacistanaidd | 0.2% | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd | 0.5% | 0.4% | 0.2% | 0.2% |
| Cymysg Gwyn a du Caribïaidd | 0.0% | 0.0% | 0.2% | 0.2% |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% |

Dywedodd 86.4 y cant o reolwyr wrthym am eu hethnigrwydd. O'r rhain, disgrifiodd 98.5 y cant ohonynt eu hunain fel gwyn, a 1.5 y cant heb fod yn wyn. Nid yw hyn wedi newid rhyw lawer yn y pedair blynedd diwethaf. Yng Nghymru gyfan, mae 4.4 y cant o'r boblogaeth yn disgrifio eu hunain yn 'heb fod yn wyn'[6].

Tabl 17: Datgan anabledd

| Oes gennych anabledd? | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Nac oes | 559 | 98.9% |
| Oes | 6 | 1.1% |
| Cyfanswm | 565 | 100% |

- Dywedodd 89.3 y cant o reolwyr wrthym p'un a oedd anabledd ganddynt ai peidio.

6. *Ffynhonnell: "Arolwg Llafurlu Lleol/Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2016: Ethnigrwydd yn ôl awdurdodau lleol Cymru" https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup*

Tabl 18: Gallu ieithyddol Cymraeg

| Gallu ieithyddol Cymraeg | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Rhugl | 8% | 9.0% | 8.7% | 9.0% |
| Rhywfaint o Gymraeg | 22% | 23.2% | 24.5% | 25.3% |
| Dim Cymraeg | 70% | 67.8% | 66.8% | 65.7% |

- Dywedodd 89.4 y cant o reolwyr wrthym am eu gallu ieithyddol Cymraeg.
- O'r rhain, nid oedd gan 65.7 y cant o'r rheolwyr allu ieithyddol Cymraeg, ond cododd y ganran o ran y rhai a nododd eu bod yn rhugl neu fod ganddynt rywfaint o Gymraeg 1.1 y cant ers y llynedd i 34.3 y cant.
- Roedd y ganran uchaf o reolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yng Ngwynedd (62.5 y cant) ac Ynys Môn (57.1 y cant).
- Roedd y ganran uchaf o reolwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl yn Sir Fynwy, lle'r oedd pob rheolwr a ymatebodd wedi datgan nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl, ac yna Bro Morgannwg (94.4 y cant), Castell-nedd Port Talbot (90.0 y cant) a Chasnewydd (84.2 y cant).
- Yng nghyfrifiad 2011, dywedodd 19 y cant o boblogaeth Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg.[7]

7. *Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011 yn gofyn 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?'. Ni wnaeth y Cyfrifiad gasglu gwybodaeth am lefelau rhuglder neu ba mor aml mae pobl yn ei siarad.*

# Manylion cyswllt

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 303 3444 | E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
Gwefan: www.gofalcymdeithasol.cymru | Trydar: @GofCymdeithasol

© (2017) Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.
ISBN: 978-1-911463-45-0

**Fformatau eraill**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyluniwyd gan Escape to Design www.escapetodesign.co.uk